

Haf 2015

CARDIFF
UNIVERSITY
PRIFYSGOL
CAERDYDD

Y CYLCHGRAWN NEWYDDION AR GYFER PRIFYSGOL CAERDYDD

NEWYDDION CAERDYDD

Cyfrol 21. Rhif 3



Llongyfarchiadau i ddosbarth 2015



Cyflwyniad

Yn y rhifyn arbennig hwn o *Newyddion Caerdydd*, rydym yn dathlu llwyddiannau academaidd ein graddedigion: dosbarth 2015.

“ Yn ystod yr wythnos hon, mae rhyw 7,000 o fyfyrwyr yn graddio. Mae hyn yn her logistaidd a gweinyddol enfawr ar gyfer ein staff ymroddedig.

Mae porthorion, arlwywyr, staff Undeb y Myfyrwyr, uwch staff gweinyddol ac academaidd i gyd yn cyd-dynnu i wneud i'r digwyddiad unigryw hwn ddigwydd a hoffwn dalu teyrnged i'w hymdrechion gwyb. Yr wyf yn parhau i gael fy nharo gan gymuned fywiog a chyffrous Caerdydd.

Rydym ni hefyd yn dathlu rhagoriaeth wirioneddol ein haddysgu ac ymchwil a'r effaith y mae hyn yn ei gael, yn enwedig o ran y cyfraniad enfawr y mae ein graddedigion yn ei wneud i gymdeithas a'r economi ehangach.

Yn y rhifyn Graddio ymroddedig hwn byddwch yn clywed gan ein Is-Ganghellor Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd, yr Athro Patricia Price, wrth iddi fyfyrwyr ar rai o gyflawniadau ein myfyrwyr yn ystod y flwyddyn academaidd.

Byddwch hefyd yn dysgu mwy am rai o uchafbwyntiau allweddol y Brifysgol eleni sydd wedi ein gweld yn dod yn bum prifysgol orau yn y DU am ragoriaeth ymchwil ac effaith a dadorchuddio cynllun gwerth £300M newydd i arwain arloesedd.

Ond yn bwysicach, byddwch yn dysgu am rai o straeon unigryw ein graddedigion.

O'r anturiaethwr dewr, i'r garfan gyntaf o fyfyrwyr Llwybr i raddio gydag anrhydedd, i fyfyrwr newyddiadurool yn ennill gwobrau a wnaeth oresgyn trallod i sicrhau anrhydedd dosbarth cyntaf.

Yr wyf yn gobeithio y bydd ein graddedigion yn cymryd munud neu ddau i fyfyrwyr ar eu profiad.

I feddwl am yr emosiynau yr oeddent yn eu teimlo ar eu diwrnod cyntaf, y bobl gyntaf y daethant ar eu traws neu'r darlithwyr sydd wedi eu cefnogi ar hyd eu taith academaidd.

Yr wyf yn eithaf siŵr y bydd yn codi llu o emosiynau cymysg, da a drwg. Mae'n sicr yn bennod yn eu bywydau nas anghofir fyth.

Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn ddiwedd eu stori yng Nghaerdydd.

Bydd rhai myfyrwyr yn parhau gyda ni trwy astudiaethau ôl-radd neu broffesiynol, ond ar gyfer y rhan fwyaf, bydd sylw yn troi at sicrhau cyflogaeth, a dyna ble mae'r cymorth a chyngor ein Tîm Myfyrwyr a Chyflogadwyedd ymroddedig - a ymddangosodd yn y rhifyn hwn - yn gallu bod o gymorth.

Rydym hefyd yn cynnig gwahoddiad gwirioneddol i'n graddedigion i aros mewn cysylltiad. Fel graddedigion Caerdydd maent yn gweithredu fel ein pencampwyr lle bynnag fydd diwedd eu taith.

Gallwch gadw mewn cysylltiad ar-lein, mynychu'r amrywiaeth o ddigwyddiadau a drefnwyd ar gyfer ein cyn fyfyrwyr neu wirfoddoli i fod yn fentor i fyfyrwyr cyfredol Prifysgol Caerdydd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl staff a myfyrwyr am eu brwdfrydedd, eu hymroddiad a'u cyfraniad i Brifysgol Caerdydd, a dymuno pob llwyddiant yn y dyfodol i'n myfyrwyr sy'n graddio.”

Yr Athro Colin Riordan
Is-Ganghellor a Llywydd,
Prifysgol Caerdydd

Y flwyddyn a fu...



Yr Athro Patricia Price yw Dirprwy Is-Ganghellor y Brifysgol o ran Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd. Yma, mae hi'n cymryd taith ymweliadau byr o rai o'r uchafbwyntiau allweddol i fyfyrwyr y Brifysgol yn ystod y flwyddyn.

“Rwy'n ystyried fy hun yn lwcus iawn. Yn fy rôl, rwy'n cael ymgysylltu a thystio i - yn ddyddiol - llwyddiannau rhagorol ein myfyrwyr. O straeon unigol o ragoriaeth academaidd i straeon am lwyddiannau personol a chwaraeon, mae'n ffraind i mi eu profi o lygad y ffynnon. Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae wedi bod yn dipyn o flwyddyn.

Mewn gwirionedd, hyd yn oed cyn i'r myfyrwyr gyrraedd, roedd eisoes yn stori o lwyddiant rhagorol, gyda'n myfyrwyr yn rhagori yng Ngemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014. Cystadlodd wyth o'n prif athletwyr, gyda Sally Peake, myfyriwr ffisiotherapi yn cymryd medal arian yn y Naid Bolyn a Natalie Powell, myfyriwr Biowyddorau yn sicrhau medal aur mewn Jiwdo.

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd roeddwn yn ddigon ffodus i gael gwahoddiad i agor neuaddau preswyl chwe llawr newydd y Brifysgol, gwerth £6.4M sy'n darparu ar gyfer 179 o israddedigion ac ôl-raddedigion y Brifysgol. Fe wnes i hefyd ddadorchuddio canolfan newydd

o'r radd flaenaf gwerth £14.5m ar gyfer addysgu a hyfforddi arweiniwyr busnes byd-eang y dyfodol yn Ysgol Fusnes Caerdydd. Mae'r ganolfan dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf yn darparu darlithfeydd uwch-dechnoleg, parthau astudio gweithredol ac uwch-dechnoleg 'ystafell masnachu' i ddenu'r myfyrwyr busnes gorau o bob cwr o'r byd. Mae buddsoddi mewn cyfleusterau newydd yn thema ailadroddus.

Ymunais â rheolwr pêl-droed Cymru, Chris Coleman i ddadorchuddio cae pêl-droed 3G y Brifysgol (y drydedd genhedlaeth). Wedi ei leoli yng Nghaeau Chwaraeon y Brifysgol yn Llanrhymni, gellir ei ddefnyddio ar gyfer gemau chwaraeon myfyrwyr mewn unrhyw dywydd. I barhau â'r thema chwaraeon, roeddwn yn hynod o falch pan fu i ni gadw'r darian Varsity flynyddol ond hyd yn oed yn fwy melys oedd y ffaith ein bod wedi llwyddo i adennill Cwpan rygbi dynion chwenychedig Varsity yn Uwch Gynghrair Dinas Abertawe, yn Stadiwm Liberty.

Yn y rhifyn hwn, byddwch hefyd yn dysgu mwy am rai

o'n graddedigion eithriadol, o fyfyrwr newyddiaduriaeth sydd wedi ennill sawl gwobr, i'n llwyth cyntaf o raddedigion Llwybr llwyddiannus. Rydym yn tynnu sylw at ein myfyrwyr y gyfraith a wnaeth hanes, wrth wneud penawdau yn y cyfryngau cenedlaethol a rhyngwladol am eu gwaith ar ôl iddynt wrthdroi collfarn lofruddiaeth lwyddiannus fel rhan o'r prosiect Innocence a redir gan Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth. Mae eu straeon yn ysbrydoliaeth i ni gyd.

Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn, byddai'n esgeulus ohonof i beidio â sôn am dîm Undeb y Myfyrwyr eleni. O dan Lywyddiaeth Elliot Howells, maent wedi parhau i fod yn llais etholedig i fyfyrwyr Caerdydd ac yn gyfaill beirniadol y Brifysgol. Boed yn galw am fwy o fuddsoddiad yn Undeb y Myfyrwyr neu gyfleusterau Prifysgol ehangach neu ddal y Brifysgol i gyfrif - maen nhw wedi bod yn gyson yn curo ar fy nrws. Heb amheuaeth yn helpu i sicrhau eu safleoedd fel un o'r gorau yn y DU. Yr wyf yn gobeithio datblygu perthynas waith cynhyrchiol yn yr un modd gyda Llywydd newydd Undeb y Myfyrwyr, Claire Blakeway wrth iddi setlo i mewn i'w swydd newydd.

Yn olaf, un peth sydd yn parhau i'm syfrdanu yw beth mae ein myfyrwyr, mewn gwirionedd, yn ei roi yn ôl i'r gymuned. Yn rhy aml, rydym yn darllen am gampau

meddwol myfyrwyr (ac eleni rydym wedi cael ein cyfran deg o hynny!), ond mae hefyd yn bwysig i werthfawrogi cyfraniad ehangach ein myfyrwyr. O wirfoddoli i glybiau adolygu mathemateg, mae ein myfyrwyr yn helpu cefnogi cymunedau ehangach.

Un prosiect o bwys arbennig oedd glanhau sbwriel, rhan o'r prosiect ymgysylltu blaenllaw Porth Cymunedol. Roedd yn helpu pobl yn Grangetown weddnewid eu cymuned. Aeth casglwyr sbwriel, gyda chymorth Cadwch Gymru'n Daclus, ar y strydoedd i gasglu bagiau o sbwriel. Ystum cymharol fach ond arwyddocaol serch hynny.

Mae'n amhosibl ymdrin â phopeth sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf, ond yr wyf yn gobeithio bod hyn wedi darparu blas ar rai o'r straeon allweddol. Mae'n fy ngadael, ar ran pawb ym Mhrifysgol Caerdydd i ddymuno iechyd da, hapusrwydd a llwyddiant i chi wrth i chi ymadael. Yr wyf yn gobeithio y byddwch yn rhan o'n cyn fyfyrwyr sy'n tyfu, gan ddangos natur drawsnewidiol addysg uwch.”

Yr Athro Patricia Price
Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer
Profiad Myfyrwyr a Safonau
Academaidd

Ein blwyddyn mewn lluniau

O sicrhau safle pump uchaf yn y DU am ragoriaeth ymchwil ac effaith, i ddarganfod potensial gwraidd y broblem gydag asthma, i fyfyrwyr y gyfraith yn diddymu euogfarn lofruddiaeth – roedd y flwyddyn ddiwethaf yn sicr yn un i'w chofio.



Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

Ymhlith prifysgolion y DU, mae Caerdydd bellach yn swyddogol yn y pumed safle y tu ôl i Goleg Imperial Llundain, yna LSE, Rhydychen a Chaergrawnt am ansawdd ein hymchwil. Rydym hefyd yn yr ail safle yn y DU ar y mesur effaith sy'n asesu arwyddocâd a chyrhaeddiad ein hymchwil.



Caerdydd yn penodi arbenigwr lled-ddargludyddion cyfansawdd blaenllaw o UDA

Penodwyd un o arbenigwyr mwyaf blaenllaw'r byd mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd (CS) i arwain labordy ymchwil newydd ym Mhrifysgol Caerdydd gyda'r pŵer i droi'r ddinas yn ganolfan fyd-eang ar gyfer ymchwil CS ac ecsbloetio. Mae'r Athro Diana Huffaker, sydd ar hyn o bryd ym Mhrifysgol California, Los Angeles (UCLA) wedi ei phenodi yn Gadeirydd Deunyddiau ac Uwch Beirianneg drwy raglen £50m Llywodraeth Cymru, Sêr Cymru.



Leuven: Creu cyfleoedd drwy bartneriaeth

Llofnododd Caerdydd gytundeb gyda phrifysgol fwyaf Gwlad Belg, KU Leuven. Bydd y Cytundeb Cydweithredol yn helpu rhoi hwb i incwm ymchwil, creu cydweithrediadau ymchwil newydd a chynnig mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr a staff i astudio a dysgu dramor.



Gyrru economi Cymru

Roedd adroddiad a gynhyrchwyd gan Viewforth Consulting CYF ar gyfer y Brifysgol yn mapio, am y tro cyntaf, effaith economaidd Prifysgol Caerdydd ar economi leol ac ehangach Cymru. Canfu'r adroddiad bod ein myfyrwyr a myfyrwyr rhyngwladol o weddill y DU, yn cynhyrchu rhyw 13,355 o swyddi yng Nghymru a £696M yn economi Cymru - neu gyfwerth â bron i un y cant o holl gyflogaeth Cymru 2013 ac 1.3 y cant o GVA Cymru (Gwerth Ychwanegol Gros).



Tablau cynghrair prifysgolion y Guardian

Cafodd deintyddiaeth a newyddiaduraeth eu rancio y gorau yn y DU yn nhablau cynghrair prifysgolion y Guardian. Roedd pynciau eraill a berfformiodd orau yn cynnwys pensaerniaeth, a symudodd i'r ail safle, adeiladu a chynllunio gwlad a thref (trydydd), a fferylliaeth a ffarmacoleg (trydydd). Dangosodd y canllaw 2016 bod deintyddiaeth wedi saethu i'r brig o'r 11eg safle y flwyddyn flaenorol, tra bod newyddiaduraeth, cyhoeddi a chysylltiadau cyhoeddus wedi codi o'r bedwerydd safle.

Cyflogwr Cyflog Byw

Daethom yn Brifysgol gyntaf Cymru i gael ei achredu fel cyflogwr Cyflog Byw. Mae cytuno i fod yn gyflogwr Cyflog Byw yn golygu bod pawb sy'n gweithio yn y Brifysgol yn derbyn isafswm cyflog fesul awr sylweddol uwch na'r isafswm cyflog cenedlaethol.





Arloesedd y Brifysgol i sbarduno twf economaidd yng Nghymru

Amlinellodd yr Is-Ganghellor, yr Athro Colin Riordan gynlluniau ar gyfer y Brifysgol i fod yn beiriant a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer ffyniant, iechyd a thwf yn y dyfodol yng Nghymru, y DU a'r byd ehangach. Bydd £300M yn cael ei fuddsoddi mewn adeiladau newydd i ddod â'r weledigaeth yn fyw. Mae'n cynnwys cynlluniau i adeiladu Parc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol cyntaf yn y byd, a fyddai'n gallu troi ymchwil o'r radd flaenaf i mewn i atebion i broblemau dybryd sy'n wynebu cymdeithas a'r byd.



Prosiect Innocence Caerdydd yn creu hanes

Sicrhaodd myfyrwyr o Ysgol y Gyfraith Caerdydd lwyddiant apêl gyntaf ar gyfer Prosiect Innocence yn y DU, gyda diddymu'r euogfarn llofruddiaeth Dwaine George. Treuliodd George 12 mlynedd yn y carchar am y drosedd ar ôl iddo gael ei ddyfarnu'n euog yn 18 oed. Mae Prosiectau Innocence yn galluogi myfyrwyr i weithio ar achosion carcharorion hirdymor sy'n mynnu eu bod yn ddiueg o droseddau difrifol y maent wedi'u cael yn euog ohonynt.



Camerâu sy'n synhwyro ymladd

Mae prosiect gwerth miliwn o bunnoedd i ddatblygu camerâu 'clyfar' sy'n synhwyro trais ar y strydoedd yn cael ei ddatblygu gan ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd. Mae arbenigwyr cyfrifiadureg a thrais yn cydweithio gydag arbenigwyr technoleg o Airbus Group i ddatblygu system a fydd yn adnabod trafferth yn datblygu ac yn rhoi gwybod i'r heddlu cyn i unrhyw un gael ei niweidio. Bydd yr astudiaeth yn datblygu technoleg ddelweddu a fydd yn rhybuddio gweithredwyr teledu cylch cyfyng fel mater o drefn pan fydd ymladd yn cael ei ganfod ar gamerâu yng nghanol dinasoedd.



Darganfod potensial gwraidd y broblem gydag asthma

Nododd gwyddonwyr Caerdydd botensial gwraidd y broblem gydag asthma a chyffwr sy'n bodoli eisoes sy'n cynnig triniaeth newydd. Gan weithio ar y cyd â gwyddonwyr yng Ngholeg y Brenin Llundain a'r Clinig Mayo (UDA), mae ymchwilwyr y Brifysgol yn disgrifio rôl profi flaenorol y derbynydd synhwyro calsiwm (CaSR) mewn achosi asthma, clefyd sy'n effeithio ar 300M o bobl ledled y byd. Yn hanfodol, mae'r ymchwil yn amlygu effeithiolrwydd dosbarth o gyffuriau a elwir yn calcilytics wrth drin CaSR i wrthdroi'r holl symptomau sy'n gysylltiedig â'r cyflwr.



Y Brifysgol yn cael ei henwi fel partner teitl Hanner Marathon y Byd

Cyhoeddwyd y Brifysgol fel partner teitl ar gyfer digwyddiad athletau pwysig a fydd yn denu llawer o redwyr gorau'r byd i Gaerdydd. Mae'r IAAF/Pencampwriaethau Hanner Marathon y Byd, Prifysgol Caerdydd yn cael ei gynnal yn y ddinas ar ddydd Sadwrn y Pasg, 26 Mawrth 2016. Bydd yr hanner marathon mwyaf i gael ei chynnal yng Nghymru a'r digwyddiad athletau mwyaf arwyddocaol a gynhaliwyd yn y wlad ers yr Ymerodraeth Brydeinig 1958 a Gemau'r Gymanwlad.



Varsity 2015

Sicrhaodd tîm Caerdydd deitl Cwpan rygbi chwenychedig Varsity y dynion. Drwy gydol y dydd, cystadlodd myfyrwyr o fwy na 30 o glybiau chwaraeon ym Mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd yn erbyn ei gilydd am y Darian Varsity. Daeth y digwyddiad i ben gyda gêm rygbi'r dynion yn Stadiwm Liberty, Abertawe, lle y sicrhaodd Caerdydd fuddugoliaeth 27-22 i gymryd y Cwpan Varsity. Yn ogystal, cadwodd tîm Caerdydd y Darian Varsity.

Llwybrau at radd yn dathlu graddio ei fyfyrwyr cyntaf



Mae cynllun arloesol sy'n cynnig i bobl ffordd yn ôl i addysg yn dathlu ei grŵp cyntaf o raddedigion yr wythnos hon.

Mae cynllun arloesol sy'n cynnig i bobl ffordd yn ôl i addysg yn dathlu ei grŵp cyntaf o raddedigion yr wythnos hon.

Mae'r llwybr Archwilio'r Gorffennol yn un o naw llwybr sydd ar gael o Ganolfan Prifysgol Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes.

Mae wedi cael ei ddatblygu i helpu oedolion i wireddu eu huchelgais

i astudio hanes, hen hanes, archaeoleg neu grefydd ar lefel gradd.

Mae'r llwybr Archwilio'r Gorffennol yn cael ei ddybyg a'i asesu mewn ffyrdd tebyg i gyrsiau myfyrwyr israddedig y flwyddyn gyntaf ac nid oes angen cymwysterau blaenorol i gofrestru.

Mae myfyrwyr yn astudio yn rhan-amser yn y Brifysgol am flwyddyn,

sy'n eu gwneud yn gymwys ar gyfer cyfweiliad ar naill ai radd ran-amser neu radd lawn amser a gyflwynir gan yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd.

Dywedodd yr Athro Kevin Passmore, Athro Hanes, Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd: "Mae pawb yn yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd yn hynod o falch o'r llwybr Archwilio'r Gorffennol.

"Mae'n cyfuno addysgu cyffrous a arweinir gan ymchwil gydag amgylchedd croesawgar a chefnogol, ac mae ganddo hanes o alluogi oedolion o bob cefndir i astudio gyda ni.

"Mae pob darlithydd eisiau oedolion sy'n dysgu ar eu modiwlau. Mae Archwilio'r Gorffennol wedi bod yn wych yn recriwtio myfyrwyr sydd yn ased i'n graddau."

Mordaith o amgylch y byd yn ennyn cariad mewn ffuglen forwrol

Mae mordaith o amgylch y byd a dod o hyd i wybodaeth newydd am y môr wedi gweld un myfyriwr sydd wedi graddio yn dychwelyd i Gaerdydd i fwynhau ei chariad o lenyddiaeth Saesneg.

Cwblhaodd Alexandra Caroline Phillips ei BA yn gyntaf mewn llenyddiaeth Saesneg yng Nghaerdydd yn ôl ym 1997.

Yn dilyn gyrfa ym maes gwerthu a marchnata, cwblhaodd Alexandra wedi hynny MA yng Ngholeg y Brenin, Llundain. Fodd bynnag, nid tan iddi adael Llundain i fynd i deithio ar ddiwedd 2002 a chychwyn ar chwe mis o fordaith o amgylch y byd y sylweddolodd

bod ei chariad newydd o'r môr wedi sbarduno angerdd am ffuglen forwrol a dychwelyd i Gaerdydd.

"Roeddwn i yng Ngwlad Thai yn ysgrifennu erthygl ar Phuket pan gefais wahoddiad i gymryd rhan mewn regata ac, wedi hynny, gofynnwyd i mi hwylio fel cogydd ar ran olaf chwe mis mordaith o amgylch y byd," cofia Dr Phillips. "Daeth hwylio ar draws Cefnfor India yn 2003 â phersbectif

newydd i ddarllen ffuglen forwrol ac wedi astudio Conrad yn ystod fy BA ym Mhrifysgol Caerdydd, roeddwn i eisiau darllen ei waith eto gyda gwybodaeth newydd y deuthum o hyd iddo am y môr," ychwanega.

Arweiniodd y wybodaeth hon iddi ymchwilio i awduron morwrol eraill wrth barhau i hwylio ar wahanol longau, gan gynnwys y llong dal The Grand Turk (a

ddefnyddiwyd yn y gyfres deledu Hornblower), a dysgodd am wahanol hwyliau a rigio, a sut i lywio a hwylio.

Yn y pen draw arweiniodd ati'n dychwelyd i Gaerdydd yn 2006 i drafod astudio ar gyfer PhD. Yn awr, rhyw wyth mlynedd yn ddiweddarach ac yn briod gyda dwy ferch, cwblhaodd Dr Phillips ei hastudiaethau doethuriaeth a dechreuodd yrfa academiaidd yn y Brifysgol Agored yn 2010.

Ychwanegodd Dr Phillips: "Mae wedi cymryd dros wyth mlynedd i gwblhau fy astudiaethau doethurol ond yr wyf yn ddiolchgar iawn i Brifysgol Caerdydd am fy nghefnogi drwy'i gydol a heddiw rwy'n teimlo'n falch o fod yn Ddoethur ac yn fam."

Triawd chwaraewyr sydd ar y brig yn Graddio

Mae triawd o dalent chwaraeon sydd ar y brig yn graddio'r wythnos hon gyda chymorth pecyn cymorth unigryw.

Mae Natalie Powell, Tom Barras a Chris Hugh i gyd yn aelodau o Raglen Perfformiad Uchel y Brifysgol (HPP).

Mae'r Rhaglen yn darparu cymorth strwythuredig i unigolion gan eu galluogi i ragori yn eu gyrfaedd academiaidd a chwaraeon ill dau wrth godi proffil a safon chwaraeon ym Mhrifysgol Caerdydd.

Eleni, mae'r Rhaglen Perfformiad Uchel (HPP) wedi cefnogi record o 75 o fyfyrwyr ar draws 30 o wahanol chwaraeon.

Dywedodd Paul Jones, Swyddog Perfformiad Chwaraeon ar gyfer Chwaraeon Prifysgol Caerdydd: "Rydym yn hynod falch o gyflawniadau ein holl chwaraewyr - ond clod arbennig

i Natalie, Tom a Chris sy'n graddio eleni.

"Mae eu cyflawniadau yn dangos sut y mae buddsoddiad Prifysgol Caerdydd mewn Chwaraeon yn y Rhaglen Perfformiad Uchel wedi creu amgylchedd lle gall athletwyr sy'n fyfyrwyr ddatblygu a rhagori tra mewn addysg uwch.

"Mae cydbwysio bywyd myfyriwr mewn prifysgol Grŵp Russell gydag un o athletwr elitaidd uchelgeisiol yn bell o fod yn hawdd ac maent wedi gwneud tipyn o aberth ar hyd y ffordd. Mae'n wych eu gweld nhw i gyd yn graddio a dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol."

Natalie Powell

Natalie Powell, a raddiodd yn y Gwyddorau Biofeddygol, yw enillydd medal aur jwdo Gemau Cymanwlad Glasgow 2014. Ar hyn o bryd mae wedi ei graddio yn yr 8fed safle yn Uwch Safle'r Byd a'r cyntaf ym Mhrydain Fawr.

Yn ogystal â'i theitl y Gymanwlad mae Natalie hefyd wedi ennill nifer o fedalau yn Grand Prix y Byd, Pencampwriaethau Meistri'r Byd a BUCS. Canlyniad diweddaraf Natalie oedd 5ed lle da iawn wrth gynrychioli Prydain Fawr yn y Gemau Ewropeaidd yn Baku.



Tom Barras

Cyfunodd Tom Barras, a raddiodd mewn ffisiotherapi, ei astudiaethau gyda rhwyfo elitaidd. Yn ogystal â sicrhau lle yn nhîm chwenychedig dan 23 Prydain Fawr profodd i fod yn aelod allweddol o Uwch Garfan Lloegr ym Mhencampwriaethau'r Gymanwlad yr haf diwethaf.

Yn ddiweddar, wedi ennill medal Aur yn y Single Sculls yn y Regata BUCS, bydd Tom nawr yn cynrychioli Prifysgolion Prydain yn y Pencampwriaethau Ewropeaidd yn Hannover, yr Almaen.



Chris Hugh

Mae Chris Hugh, a raddiodd mewn Deintyddiaeth, yn Uwch gapten Rhyngwladol clwb Futsal Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Eleni, roedd yn gapten ar dimau'r BUCS a'r Gynghrair Genedlaethol i lwyddiant digynsail.

Enillodd tîm y Brifysgol yr Uwch Gynghrair BUCS a'r Gwpan FAW Fustal sy'n golygu y byddant yn cynrychioli Cymru yng Nghwpan Futsal UEFA yr haf hwn.

Cymrodyr er Anrhydedd 2015

Mae newyddiadurwraig a chyflwynydd blaenllaw, capten rygbi Cymru a Llewod Prydain ac Iwerddon ac un o ferched busnes blaenllaw'r DU ymhlith y rhai i gael eu hanrhydeddu gan Brifysgol Caerdydd yn ystod seremonïau graddio'r wythnos hon.

Susanna Reid



Mae'r newyddiadurwraig a'r cyflwynydd uchel ei pharch, Susanna Reid, yn cyflwyno Good Morning Britain.

Cyn ymuno ag ITV, cyflwynodd Susanna BBC Breakfast, a chynhaliodd ei sioe ei hun Sunday Morning Live ar BBC1. Cymerodd le Andrew Marr yn 2013, ac ym mis Medi'r flwyddyn honno cymerodd Susanna ran yn sioe Strictly Come Dancing BBC1, gan ei wneud yr holl ffordd i'r rownd derfynol.

Yn ystod ei gyrfa, mae Susanna wedi cwestiynu'r Prif Weinidog, siarad â Kate Winslet a llu o sêr eraill ar y carped coch yn yr Oscars, wedi cael clyweliad gan yr Arglwydd

Andrew Lloyd Webber ac wedi derbyn gwers mewn kung-fu gan Jackie Chan.

Astudiodd Suzanna Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg ym Mhrifysgol Bryste cyn cwblhau ei hastudiaethau ôl-radd yn Ysgol Astudiaethau Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd.

Yr Athro Y Fonesig Anne Glover



Yr Athro Y Fonesig Anne Glover CBE FRSE FASM yw Is-Bennaeth Materion Allanol a Deon ar gyfer Ewrop ym Mhrifysgol Caeredin. Mae gan yr Athro Glover BSc mewn Biocemeg o Gaeredin a PhD mewn Microbioleg Moleciwlaidd o Gaergrawnt.

O 2006-2011 hi oedd Prif Gynghorydd Gwyddonol yr Alban, cyn cael ei phenodi fel Prif Gynghorydd Gwyddonol cyntaf i Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd yn 2012, swydd

y bu ynddi am dair blynedd. Yn 2013 cafodd ei graddio fel merch fwyaf pwerus y 19eg yn y DU gan Woman's Hour ar BBC Radio 4.

Sam Warburton



Mae Sam Warburton yn chwaraewr rygbi rhyngwladol i Gymru. Mae Sam yn chwarae rygbi rhanbarthol i'r Gleision Caerdydd a chafodd ei gap cyntaf i Gymru yn 2009.

Mae wedi mynd ymlaen i ennill 54 o gapiau i Gymru. Ym mis Mehefin 2011 cafodd ei enwi fel capten Cymru yn erbyn y Barbariaid, ac yn dilyn hynny yn Awst 2011 enwyd ef yn gapten Cymru ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd 2011, pan oedd yn ddim ond 22. Yn Ebrill 2013 enwyd ef yn gapten y Llewod ar gyfer

y Daith 2013 i Awstralia ac fe enillwyd.

Warburton sy'n dal y record am y rhan fwyaf o gapiau i Gymru fel capten, gan arwain y ochr ar 35 achlysur.

Ruth Hunt



Cafodd Ruth Hunt ei phenodi'n Brif Weithredwr Stonewall ym mis Awst 2014. Mae hi wedi llwyddo i arwain datblygiad arloesol allbwnau polisi, ymgyrchu ac ymchwil Stonewall, gan gynnwys ei waith i fynd i'r afael â bwlio homoffobig mewn ysgolion, ymryiadau effeithiol i wella iechyd pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth enwog Stonewall.

Mae hi hefyd wedi arwain ymrwymiad Stonewall i ymgyrchu dros gydraddoldeb traws; penderfyniad a fydd yn siapio gwaith Stonewall yn y dyfodol. Mae'r symudiad hanesyddol hwn yn dilyn ymgyngoriad helaeth gyda dros 700 o bobl drawsrywiol a fydd yn gweld Stonewall

yn defnyddio ei blatfform a'i brofiad i helpu i greu newid gwirioneddol ar gyfer pobl drawsrywiol.

Yn 2014, cafodd Ruth ei phleidleisio'n wythfed person LGBT mwyaf dylanwadol ym Mhrydain yn Rhestr Rainbow yr Independent.

Philippa Gregory

Roedd Philippa Gregory yn hanesydd a llenor sefydledig pan ddarganfu ei diddordeb yng nghyfnod y Tuduriaid ac ysgrifennodd y nofel *The Other Boleyn Girl*, a wnaed i mewn i ddrama deledu a ffilm fawr.



Ei diddordeb mawr arall yw'r elusen a sefydlodd bron 20 mlynedd yn ôl: *Gardens for The Gambia*. Mae hi wedi codi arian a thalu am bron i 200 o ffynhonnau mewn ysgolion cynradd y wlad.

Yn awr, 14 nofel yn ddiweddarach, ar ôl ysgrifennu cyfres ar y Plantagenets godidog, mae hi'n dychwelyd i'r Tuduriaid gyda chweched gwraig Harri'r VIII.

Laura Tenison

Laura Tenison, yw Sylfaenydd a Rheolwr Gyfarwyddwr JoJo Maman Bébé, prif frand bwfíc mam a baban y DU.



sefydlu yn UDA er mwyn cyflawni nifer cynyddol o archebion i'r Unol Daleithiau. Mae hi'n fentor rheolaidd i bobl fusnes eraill a hefyd yn rhedeg menter amgylcheddol sy'n gweithio i ailgylchu dillad plant bach wedi'i gwisgo ar gyfer eu dosbarthu gan Barnardo.

Mae ei chwmmi wedi tyfu'n organig o gychwyn bach yn 1993 i drosiant cyfredol o £50M a 700 o weithwyr.

Mae'n cael ei redeg gyda chod ymddygiad moesol llym; gan roi pobl a'r blaned uwchben elw. Ar hyn o bryd mae Laura a'i thîm yn gweithio ar y twf allforion a chanolfan ddsbarthu newydd wedi'i

David Pountney

David Pountney cyfarwyddwr, a ddaeth yn adnabyddus yn rhyngwladol trwy ei gynhyrchiad o *Katya Kabanova* yng Ngŵyl Wexford 1972. Rhwng 1975 a 1980, roedd yn Gyfarwyddwr Cynrychiadau ar gyfer Opera'r Alban. Cyfarwyddodd bremière y byd *Toussaint* gan David Blake yn 1977 (ENO) ac aeth ymlaen i fod yn Gyfarwyddwr Cynrychiadau ENO yn 1980, gan gyfarwyddo dros 20 o operâu.



o'r Rwsseg, Tsieceg, Almaeneg ac Eidaleg. Fel cyfarwyddwr llawrydd o 1992 bu'n gweithio yn gyson yn Zurich, yn Opera'r Wladwriaeth yn Fienna, Bayerische Staatsoper, yn ogystal â thai opera yn America a Siapan, ac yn y DU mae ganddo gysylltiad hirsefydlog gydag Opera North. Ers 2011 mae wedi bod yn Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Artistig Opera Cenedlaethol Cymru.

Mae wedi cyfarwyddo nifer o berfformiadau cyntaf y byd, gan gynnwys tri gan Peter Maxwell Davies yr ysgrifennodd y libreto hefyd ar ei gyfer, ac mae wedi cyfieithu operâu i'r Saesneg



Marcus McGilvray

Tyfodd Marcus McGilvray i fyny yn Sir Fynwy a hyfforddodd yn Llundain fel Nyrs Arbenigol HIV. Bellach yn byw yn KwaZulu Natal, De Affrica, Marcus yw sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Affricaid - Whizzkids United, cwmni dielw sy'n darparu gwasanaethau iechyd,

addysg a grymuso i ieuencid dan anfantais. Mae dros 20 o raglenni yn ffurfio WhizzKids United (i gyd wedi'u cynllunio gan Marcus) gan gynnwys iechyd rhywiol ac atgenhedlu, atal HIV a thriniaeth, gofal a chymorth OVC, grymuso merched a chynghrair pêl-droed i'r ddau ryw i gyd yn rhedeg o Academi Iechyd WhizzKids United.

Ceri Powell

Ceri Powell yw Is-Lywydd Gweithredol Exploration for Shell, yn goruchwylio agweddau technegol ar archwilio yn y cwmni ac yn atebol ar gyfer gweithrediadau archwilio a chyfluoedd busnes newydd.



Mae Ceri yn aelod gweithgar o Fwrdd Ymgynghorol mawreddog rhaglen y Cenedloedd Unedig *Ynni Cynaliadwy i Bawb*, dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenedloedd Unedig. Ers 2014 mae Ceri wedi gwasanaethu fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Carillion PLC, ac fel Cadeirydd y

Pwyllgor Bwrdd Cynaliadwyedd. Cwmni adeiladu a gwasanaethau yw Carillion gyda phortffolio rhyngwladol gan gynnwys y DU, Canada a'r Dwyrain Canol. Fel un o'r prif fenywod yn y Diwydiant Ynni heddiw, mae Ceri ddwywaith wedi ennill anrhydedd o fod ar restr Busnes Rhyngwladol Fortune Top 50 o Fenywod mwyaf pwerus.

Thomas Kielinger

Mae Thomas Kielinger wedi bod yn ohebydd y DU ar gyfer y *Die Welt* Almaeneg cenedlaethol dyddiol ers 1998, wedi adrodd yn flaenorol ar gyfer y papur o Washington, DC rhwng 1977 a 1985. Wedi iddo ddychwelyd daeth yn olygydd blaenaf y *Rheinischer Merkur* wythnosol, ac yn 1994 dechreuodd ei fusnes ei hun fel ysgrifennwr, darlledwr ac



ymgynghorydd gwleidyddol. Yn gynharach yn ei yrfa roedd yn Ddarlithydd mewn Almaeneg ym Mhrifysgol Caerdydd, lle yn 1993 daeth yn gymrawd yn yr Ysgol Newyddiaduraeth.

Cyflwynydd Teledu, chwilotwr, anturiaethwr ... Dr

Efallai y byddwch yn meddwl bod beicio ar y ffordd uchaf yn y byd, canwio Afon Yukon, mynydda yn yr Alpau a'r Ynys Las, dringo creigiau yn Ewrop a gwneud ffilmiau yn yr UDA a gyrfa ddisglair yn y cyfryngau yn ddigon i'r mwyafrif o bobl, ond nid i un o raddedigion dewr 2015.



Mae Niall yn dod yn Dr McCann yr wythnos hon ar ôl cwblhau ei PhD yn Ysgol y Biowyddorau yn astudio'n llwyddiannus Baird's tapir - y mamal mwyaf yn y Neotropics ac un o'r rhywogaethau sydd fwyaf dan fygythiad yn Americas gyfan.

"Mae wedi bod yn act jyglo, mae hynny'n sicr," esbonia Dr McCann.

"Rwyf wedi bod yn jyglo teithiau, gwaith cyfryngau a gwaith cadwraeth allgyrsiol gyda fy astudiaethau academaidd ac mae'n deg dweud bod fy PhD yn dioddef o'r llwyth gwaith ychwanegol, a fyddai'n esbonio pam yr wyf yn treulio chwe mis yn cywiro fy nhraethawd ymchwil gwreiddiol!" ychwanegodd.

Fodd bynnag, er ei fod wedi bod yn act jyglo anodd mae Dr McCann yn mynnu ei fod wedi'i wneud yn haws gan amgylchedd ymchwil cefnogol a chefnogaeth ei oruchwyliwr, yr Athro Mike Bruford.

Mae Dr McCann yn ychwanegu: "Pan benderfynais fy mod eisiau gwneud PhD mewn geneteg cadwraeth gofynnais i lawer o ffrindiau'r teulu - sy'n gweithio

mewn adrannau bioleg mewn prifysgolion eraill yn y DU - pwy fyddent yn argymhell fel goruchwyliwr delfrydol. "Derbynais sawl argymhelliad gan bob person, ond yr oedd un enw yn gyffredin i bob rhestr, yr Athro Mike Bruford.

"Pe bawn i'n gallu dewis un peth hwnnw fyddai natur ryfeddol o gynhwysol ac amlddiwylliannol labordy Mike, y cyfnewid diwylliannol dyddiol yr ydym yn ei fwynhau, y sgwrs gyfoethog a'r rhwydwaith cymorth anffurfiol sy'n bodoli i helpu pryd bynnag mae angen help.

"Mae Mike yn ysbrydoliaeth gyson, nid yn unig mae wedi cael gyrfa academaidd serol, ond mae'n gadwraethwr sy'n pryderu ac yn neilltuo mwy a mwy o'i amser i gadwraeth ar yr union adeg y mae'r byd fwyaf ei angen."

Mae Dr McCann wedi ymroi ei fywyd i chwilio am antur yn y byd naturiol, naill ai ar y cyd â'i astudiaethau sŵolegol, neu ar anturiaethau ar ei ben ei hun.

Mae wedi arwain at yrfa deledu ddisglair sydd wedi gweld Dr McCann yn gwneud ei ymddangosiad cyntaf ar y teledu

yn 2011 gyda'r rhaglen ddogfen PBS Lost in the Amazon: The enigma of Col Fawcett, a ddarlledwyd ar y Sianel Hanes yn y DU.

O ganlyniad i lwyddiant y rhaglen ddogfen hon, a enillodd ddwy wobwr ryngwladol, glaniodd Niall gyfres antur bywyd gwyllt chwe rhan 'Biggest and Baddest' gydag Animal Planet Canada a Nat Geo Wild, a gyfarwyddwyd gan Peter von Puttkamer ac a gynhyrchwyd gan Productions Gryphon.

Yn ddiweddar, cwblhaodd Dr McCann ffilmio'r ail dymor o'r gyfres hon, a enillodd ddwy wobwr yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Worldfest Houston. Enillodd y bennod The Mountain Gorilla Wobwr Rheithgor Arbennig; a chafodd Niall Remi Platinwm am y dalent orau ar y sgrin.

Yn ei yrfa fel sŵolegwr, mae Dr McCann wedi arbenigo ar weithio gyda rhywogaethau sydd mewn perygl, ac wedi cynnal ymchwil sŵolegol yn y DU, yr Eidal, Mauritius, Bolifia, Namibia, Guyana a Honduras; gan dreulio dros 21 mis yn byw ac yn gweithio mewn rhannau anghysbell a heriol y byd.

Yn ogystal â'i ran mewn ymchwil, mae Niall yn cymryd rhan weithredol mewn prosiectau cadwraeth parhaus yn Honduras, Nepal a Guyana, ac mae'n Gymrawd y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol.

Felly, beth nesaf ar gyfer yr eofn Dr McCann? Mae'n ychwanegu: "Rwy'n gobeithio aros yng Nghaerdydd a chyfuno addysgu ac ymchwil gyda fy ngwaith yn y cyfryngau a'm gweithgareddau cadwraeth parhaus."

Mae bywyd ymhell o fod yn ddiflas i Dr Dando

Mae swydd lawn amser, yr her o ddod yn fam am y tro cyntaf, heb sôn am redeg o gwmpas ar ôl tri Labrador sionc, yn ddigon i'r rhan fwyaf o bobl - ond nid ar gyfer y graddedig Dr Victoria Dando.

Mae graddio yn nodi diwedd saith mlynedd flinedig o astudiaeth ymchwil ran-amser yn cymharu adrodd am newid yn yr hinsawdd a therfysgaeth yn y wasg Brydeinig.

Mae ei holl waith caled yn talu ei ffordd yr wythnos hon pan fydd Dr Dando o'r diwedd yn cyflawni ei uchelgais tymor hir o ddod yn Ddoethur mewn Athroniaeth.

“Dydw i ddim yn mynd i ddweud celwydd, mae'n heriol iawn jyglo gwaith llawn amser gydag astudiaeth ôl-raddedig,” yn ôl Dr Dando, sydd ar hyn o bryd ar absenoldeb mamolaeth o'i rôl fel Uwch Swyddog Cyfathrebu yn dilyn genedigaeth ei mab, Teddy.

“Mae'r blynyddoedd a oedd yn cyd-daro ag ymchwilio ac ysgrifennu wedi dod â hapusrwydd a thristwch, cerrig milltir ac atgofion. Mae symud tŷ ddwywaith, yr ail i mewn i adeilad hardd sydd angen ei adnewyddu'n llwyr, wedi profi cadernid ffeilio fy nhraethawd ymchwil a'm dadansoddiad.

“Mae wedi cymryd hunanddisgyblaeth anhygoel, rhai nosweithiau hir iawn a goroesi penwythnosau. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth - ac amynedd - fy ngŵr, teulu a ffrindiau heb sôn am fy ngoruchwyliwr, yr Athro Justin Lewis, llwyddais i gwblhau popeth yn y diwedd,” ychwanega.

Heb fodloni ar gyflawni dosbarth cyntaf yn ei gradd israddedig a gyrfa lwyddiannus yn BBC Cymru, dychwelodd Victoria i'r Brifysgol yn 2008 i ymgymryd â rôl yn Swyddfa Cysylltiadau Cyhoeddus y Brifysgol, fel yr oedd bryd hynny, a dechreuodd ar ei hastudiaeth ôl-raddedig ran-amser.

Fodd bynnag, er gwaethaf ei hastudiaethau yn dod i ben, mae'n ymddangos nad hyn yw diwedd ymdrechion academiaidd Dr Dando.

Yn awr wedi cwblhau ei hymchwil, mae hi bellach yn gobeithio cyhoeddi ei chanfyddiadau ymchwil. Mae hi hefyd yn jocian y gall hi o'r



Llun o Dr Victoria Dando gyda'i mab, Teddy, a'i thri Labrador, Sophie, Willow a Louis.

diwedd ddod i adnabod ei gŵr, Martin, nawr bod ei hymchwil wedi'i gwblhau.

Mae Dr Dando yn ychwanegu: “Y cynllun yn awr yw cael y gwaith a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion academiaidd allweddol, addasu i fywyd yn dod yn fam am y tro

cyntaf a chydbwysu fy mywyd newydd gydag ymchwil parhaus a swydd lawn amser.”

Mae Dr Dando yn barod i ddychwelyd i'w swydd lawn amser yn y Brifysgol tua diwedd 2015, chwe mis wedi rhoi genedigaeth i'w phlentyn cyntaf.

Llinell gynhyrchu o'r prif dalent rygbi

Mae'r chwaraewr rygbi, James Thomas, yn dilyn yn ôl troed band cynyddol o raddedigion i fod wedi jyglo eu hastudiaethau academiaidd gyda gyrfa rygbi proffesiynol.

Mae James, sy'n chwarae dros y Dreigiau Casnewydd Gwent, yn graddio o Ysgol y Biowyddorau yr wythnos hon. Ochr yn ochr â'i astudiaethau, bu hefyd yn chwarae i Glyn Ebwy a Phont-y-pŵl, yn ogystal â sicrhau anrhydedd i Gymru ar lefelau dan 18 a dan 20.

Fodd bynnag, er ei holl lwyddiant chwarae proffesiynol, mae James yn dal i ystyried chwarae i dîm y Brifysgol ac ennill y gêm talu'r pwyth blynyddol, Varsity, fel un o uchafbwyntiau mwyaf nodedig ei yrfa rygbi.

Dywedodd James: “Roedd Varsity yn brofiad gwych. Roedd chwarae yn Stadiwm y Mileniwm o flaen y Brifysgol gyfan yn brofiad anhygoel.

“Byddai'n rhaid i'r foment orau fod yn ennill Varsity. Yr oedd

hynny'n wych - heb sôn am y dathliadau treigl a barhaodd am ychydig ddyddiau wedi hynny.

“I mi pan ymunais â'r Brifysgol yr oeddwn yn dychwelyd o ddau anaf drwg i'm pen-glin. Doeddwn i ddim wedi chwarae am yn agos i 14 mis felly gadawodd y clwb rygbi i mi ddychwelyd gan bwyll bach a chwarae'n rheolaidd ac yn y pen draw ganiatáu i mi ddechrau mwynhau'r gêm eto.”

Mae'n ymddangos nad hyn yw diwedd enw da cynyddol y

Brifysgol fel llinell gynhyrchu ar gyfer y prif dalent rygbi.

Mae Hallam Amos, sydd ar yr un tîm â James yn Dreigiau Casnewydd Gwent yn fyfyrwr meddygol israddedig cyfredol.

Mae ymgymryd â dwy yrfa feichus o'r fath yn gofyn llawer gan unrhyw un, ond mae'n ymddangos fod Hallam yn gwneud gwaith eithaf da ohono hyd yn hyn, fel y mae ei alw yn ddiweddar i'w ymddangosiad cyntaf ar yr asgell dros Gymru yn erbyn Tonga yn cadarnhau.



Cyfoethogi bywyd myfyrwyr

Mae staff a myfyrwr wedi cael eu cydnabod am eu cyfraniad i'r profiad myfyrwyr yng Ngwobrau blynyddol Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr y Brifysgol.

Mae cyfraniad ac ymroddiad y myfyrwyr a'r staff wedi cael eu dathlu yng Ngwobrau blynyddol Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr y Brifysgol.

Mae'r gwobrau blynyddol yn gyfle i ddiolch i'r rhai sy'n gweithio i wella profiad y myfyrwr ym Mhrifysgol Caerdydd.

Ymhlith rhestr hir o enillwyr roedd Einir Evans a Jumana Nabulsi.

Sicrhodd Einir Wobr Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr am helpu i ddarparu cyfleoedd dwys a newid bywyd i bobl sy'n gadael gofal, tra dewiswyd Jumana fel enillydd cyffredinol Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr am y Flwyddyn, a chafodd ei chanmol am fod yn gyfeillgar, hawdd mynd ati, ymroddedig ac angerddol am ei gwaith.

Mae Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr yn cael eu trefnu bob blwyddyn gan Undeb Myfyrwyr Caerdydd, ac maent yn gyfle i fyfyrwyr i enwebu'r aelodau o staff a chyd-fyfyrwyr sydd wedi gwneud gwahaniaeth i'w hastudiaethau a'u profiad.

Dyweddodd y Dirprwy Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure: "Mae'r gwobrau hyn yn enghraifft wych o bartneriaeth, dim ond un agwedd sy'n dangos sut y mae ymgysylltu â myfyrwyr yn helpu'r brifysgol i godi proffil a bri addysg.

"Mae'r gwobrau eu hunain yn canolbwyntio ar agweddau allweddol ar addysg a phrofiad myfyrwyr, er enghraifft, mae'r gwobrau arloesedd ac effeithiolrwydd yn adlewyrchu'r diwylliant ar gyfer dysgu gydol oes yr ydym yn trwytho ein staff ynddo."

Y rhestr lawn o enillwyr 2015

Yr Aelod o Staff mwyaf Ysbyrdoledig

Emma Stone, Yr Ysgol Deintyddiaeth

Tiwtor Personol y Flwyddyn

Michelle Aldridge-Waddon, Ysgol Astudiaethau Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth

Yr Athro Mwyaf Effeithiol

Mark Elliott, Yr Ysgol Cemeg

Yr Aelod Staff Mwyaf Arloesol

Iona Johnson, Yr Ysgol Deintyddiaeth

Gwobr Cyflogadwyedd

Catherine Jones, Ysgol Seicoleg

Cydllynydd Cynrychiolydd Myfyrwyr y Flwyddyn

Louise Hughes, Ysgol Fferylliaeth

Gwobr Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr

Einir Evans, Cymorth a Lles Myfyrwyr

Gwobr yr Is-Ganghellor am Ymrwymiad i Brofiad Myfyrwyr

Claire Morgan, Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd

Gwobr Cyflawniad Oes

Chris Turner, Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr

Rhestr Anrhydedd

Maryambibi Bham, Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr am y Flwyddyn

Maximilian Schulze Wenning, Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr am y Flwyddyn

Jumana Nabulsi, Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd

Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr am y Flwyddyn

Thom Davies, Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg

Pobl Caerdydd

Laura Hodges – Dosbarth 2010

Graddiodd Laura Hodges mewn newyddiaduraeth yn 2010. Ers graddio fe dreuliodd flwyddyn yn Llundain yn gweithio mewn un neu ddau o brif swyddfeydd brand harddwch, yna dychwelyd i Gaerdydd a gweithio i asiantaeth dylunio ddigidol yng Nghaerdydd. Dychwelodd Laura i'r Brifysgol pan ymunodd â Thîm Cyfathrebu'r Brifysgol ym Medi 2014.



Yn farw neu'n fyw - pwy fyddai eich tri gwestai ciniawau delfrydol a pham?
Nigella Lawson - gall hi goginio.
Rachel Bilson - er mwyn i ni allu sgwrsio a sylweddoli mai ffrindiau gorau ddylen ni fod.
Michael Bublé - gall ddarparu'r gerddoriaeth.

Mewn steil 'Desert Island Discs', pe byddech yn cael eich anfon ar eich pen eich hun i ynys bellennig pa dair cân byddech yn eu cymryd gyda chi?
Stand by me - Ben E King;
Love on Top - Beyonce;
Killer Queen - Queen.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?
Cerddoriaeth, bwyd a'r bobl rwy'n eu caru.

Pe gallech gael gwared ag un peth i mewn i ystafell 101, beth fyddai hwnnw?
Wardiniaid Traffig.

Disgrifiwch eich hun mewn tri gair
Doniol, cyfeillgar, foodie.

Pwy a beth sy'n eich ysbrydoli fwyaf?
Unrhyw un sydd wedi ysgrifennu nofel. Un diwrnod byddaf i'n ysgrifennu un.

Trydar neu ddim Trydar?
Trydar!

Pe baech chi'n Is-Ganghellor am ddiwrnod, beth fydddech chi'n ei wneud?
Byddwn yn rhoi pabell enfawr yn Coopers Field a llogi llwyth o ddigrifwyr a gwahodd pob aelod o staff allan am noson o chwerthin. Fodd bynnag, byddai ychydig o rybudd ymlaen llaw i gynllunio hyn yn cael ei werthfawrogi!

Beth sy'n gwneud i chi godi o'r gwely yn y bore?
Anwybyddu fy larwm a sylweddoli mai dim ond wyth munud sydd gennyf i baratoi.

Organydd yn dathlu 40 mlynedd o seremonïau graddio



Mae organydd y Brifysgol yn dathlu 40 mlynedd o daro'r nodyn iawn yn ein seremonïau graddio pan fydd yn perfformio eto eleni.

Dywedodd Mr Court ei fod yn edrych ymlaen at chwarae yn y digwyddiad – sydd nawr wedi ei lwyfannu yn Neuadd Dewi Sant yng nghanol dinas Caerdydd - bob blwyddyn.

mawr a gwneud eu ffordd eu hunain. Mae'n ddiwedd cyfnod.

iddynt gerdded i mewn ac nid yw'n alaw ddrwg chwaith!"

"Rwy'n mwynhau cymryd rhan a bod yno, ac mae wedi dod yn rhan o'm haf."

Mae ganddo nifer o hoff ddarnau eraill ar gyfer y diwrnod graddio gan gynnwys yr adran ganol o Pièce d'Orgue gan Bach a Crown Imperial gan William Walton.

Mae Mr Court, sy'n ddarlithydd cysylltiol yn y Brifysgol, yn cymryd gofal mawr i ddewis cerddoriaeth addas ar gyfer yr achlysur ac yn osgoi chwarae'r un darnau bob blwyddyn.

Mae Mr Court yn gerddor disglair sydd wedi chwarae gyda'r rhan fwyaf o gerddorfeydd blaenllaw yn y wlad.

Fodd bynnag, mae un darn arbennig o gerddoriaeth sydd wedi dod yn ddarn gosod yn y seremonïau.

Bu'n perfformio ar daith ysblennydd y BBC yn ddiweddar sef Dr Who gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a hefyd yng nghystadleuaeth Canwr y Byd y BBC a ddarlledwyd yn rhyngwladol.

Perfformiodd Robert Court, chwaraewr bysellfwrdd llawrydd, gyntaf fel myfyriwr cerdd yng Nghaerdydd pan gynhaliwyd y diwrnod graddio yn Neuadd Fawr Undeb y Myfyrwyr.

"Rwyf wrth fy modd yn chwarae yn y seremonïau hyn – mae graddio yn garreg filltir ym mywydau pobl," meddai.

"Pan ddechreuais chwarae yn ystod y diwrnod graddio, roedd yn cael ei adnabod fel Coleg y Brifysgol, Caerdydd, yn y dyddiau hynny ac arferai'r côr ganu Cân y Coleg," meddai.

Ond mae bob amser yn awyddus i barhau â'i draddodiad o berfformio mewn seremonïau graddio.

"Cafodd ei ysgrifennu ar gyfer agor y llyfrgell ym Mharc Cathays gan yr Athro Cerddoriaeth ar y pryd, David Evans.

"Byddwn yn sicr yn gweld ei eisiau. Mae gwastad sôn am newid fformat y seremoni neu newid y lleoliad," meddai.

Mae wedi perfformio bob blwyddyn ers hynny, ar wahân i 1979 a oedd yn gwrthdaro â'i briodas.

"Mae'n llawen, ond mae hefyd yn ingol. Mae myfyrwyr yn cael amser da ond dyma'r pwynt lle maent yn mynd i ffrwd i'r byd

"Rwy'n ei chwarae ar gyfer y gorymdeithiau academiaidd wrth

"Os nad oes organ does dim lle i mi, ond mae organ yn Neuadd Dewi Sant ac mae pobl yn hoffi ei chlywed!"

O adael gofal i olygydd

Roedd Michael O'Connell Davidson, a raddiodd mewn Newyddiaduraeth, yn ddigartref yn 16 oed, a heb ddim cefnogaeth deuluol, dyfalbarhaodd drwy goleg chweched dosbarth wrth fyw mewn ystafell ar rent.



Nawr, mae'n graddio gydag anhwydedd dosbarth cyntaf fel un o rai mwyaf disglair y dyfodol o Ysgol Astudiaethau Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd.

Pobl sy'n gadael gofal yw'r grŵp mwyaf heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

Mae Michael ymhlith dim ond 7 y cant o'r rhai sy'n gadael gofal a gyrhaeddodd addysg llawn amser erbyn 19 oed, o gymharu â 43 y cant o'r holl bobl ifanc.

Ar ôl tair blynedd o frwydro i gydbwyso addysg coleg llawn amser gyda gwaith llawn amser, cafodd Michael y graddau roedd eu hangen i ddilyn ei freuddwyd o astudio newyddiaduraeth.

Ond eto, nid oedd ei broblemau drosodd oherwydd nid oedd ganddo gefnogaeth ar gyfer ei gais am gyllid myfyrwr. Ymddangosai fel bod ei ddyfodol yn y fantol ac yr oedd yn aros yn ei unfan, "heb flwch i'w dicio."

Fodd bynnag, gwrthododd y Ganolfan Cymorth i Fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd adael i

Michael syrthio drwy'r rhwyd; cynigiwyd iddo lety drwy'r flwyddyn gyda chynhaliath Bwrsariaeth Gadael Gofal gwerth £1000, a chymorth ariannol pellach yn ei ail a'r drydedd flwyddyn.

Tair blynedd yn ddiweddarach mae wedi llwyddo i gydbwyso ei astudiaethau gyda'i rôl fel golygydd papur newydd myfyrwr y Brifysgol, Gair Rhydd, mae wedi cyrraedd rhestr fer yng Ngwobrau Mind Media a Gwobrau'r Gymdeithas Cyhoeddi Myfyrwr, ac mae wedi cael gwaith wedi ei gyhoeddi ar yr Independent ar-lein a Vice UK.

"Nid yw'n ormod i ddweud, heb gefnogaeth canolfan Cymorth i

Fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd, fyddwn i ddim wedi cael y modd i sicrhau lle mewn prifysgol, a byddaf yn parhau i fod yn fythol ddiolchgar i'r sefydliad am bopeth y mae wedi ei gynnig i mi.

"Mae Cyllid Myfyrwyr a chyrrff cyhoeddus eraill sy'n ymroddedig i gefnogi pobl ifanc yn ddim mewn cymhariaeth pan gânt eu rhoi drws nesaf i waith Einir Evans a phawb sydd ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n ymwneud â gweithio gyda rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr o gefndiroedd ansafonol."

Mae rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i'w weld yn: www.caerdydd.ac.uk/advice/careleavers/care-leavers.html

Achlysur teuluol yn y gyfraith ar gyfer deuawd mam-merch

Bydd mam a merch y tybir iddynt fod y cyntaf i fod wedi astudio'r un radd ar yr un pryd yn dathlu yn ystod seremoni raddio'r wythnos hon.

Cofrestrodd Jane Heard ar BA yn y Gyfraith yn 2012 ac yna ei merch, Chloe Walkley yn 2013. Yn dilyn tair blynedd o astudio, mae Jane yn graddio'r wythnos hon, flwyddyn o flaen ei merch.

Dyweddodd Jane: "Roedd gen i wastad ddi-ddordeb brwd yn y gyfraith, ond ni chefais y cyfle i fynd i'r Brifysgol pan orffennais yr ysgol. Gweithiais, ymhlith pethau eraill, fel ysgrifenyddes gyfreithiol felly roedd gen i fewnwelediad da i fywyd mewn cwmni cyfreithiol.

"Unwaith roedd fy mhlant yn yr ysgol uwchradd, cofrestrais gyda'r Brifysgol Agored ac astudio'r

gyfraith am bedair blynedd yn rhan-amser wrth weithio mewn adnoddau dynol. Ond taflodd bywyd rai rhwystrau yn y ffordd a bu'n rhaid i mi ohirio fy astudiaethau.

"Ym mhen hir a hwy cofrestrais eto ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2012, ac yr wyf wedi parhau i weithio mewn adnoddau dynol ochr yn ochr â'm gradd."

Mae bod yn ddeuawd mam-merch yn y brifysgol wedi arwain at ychydig o sefyllfaoedd anarferol, fel yr eglura Jane:

"Fe gofrestrais y flwyddyn cyn Chloe, a oedd yn golygu fy mod eisoes wedi gwneud ychydig o ffrindiau. Mae Chloe yn meddwl ei fod yn ddoniol fy mod yn ffrindiau gyda'i chariad yn awr, Joe, cyn iddynt gyfarfod hyd yn

oed, a phan mae hi'n dod ag ef adref rydym yn siarad mwy nag y maent hwy yn ei wneud!

"Weithiau, mewn darlithoedd neu mewn sesiynau tiwtorial, byddai'r staff addysgu'n dweud wrth y myfyrwyr "mae'n debyg na fyddwch yn cofio hyn, ond bydd eich rhieni yn ei gofio!"

Ond yn ôl Chloe, mae'n dal i fod yn achos o mam sy'n gwybod orau pan ddaw i astudio.

Mae Cloe yn ychwanegu: "Mae'n bendant yn achos ohonof i yn gofyn i mam am gymorth ac nid y ffordd arall o gwmpas!

"Mae fy ffrindiau yn gofyn a ydym yn gweithio gyda'n gilydd ar bopeth ond mae bod flwyddyn yn is yn golygu bod llawer ohono'n newid, dwi'n credu ei fod yn fwy

o'r ffaith y gallwn gael dadleuon a thrafodaethau ar bynciau rydym ein dwy wedi eu hastudio ar ryw adeg, sy'n fy helpu i ddsygu ac mae'n ddiddorol."

Ond er gwaethaf natur unigryw'r sefyllfa, mae Chloe yn hynod falch o lwyddiannau ei mam.

Ychwanegodd Cloe: "Yn sicr ni fyddwn yn ei newid. Mae fy mam yn berson anhygoel ac yn un o'm hysbrydoliaeth fwyaf, yn enwedig pan wnes i'r penderfyniad i astudio'r gyfraith.

"Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn o fod wedi gallu rhannu'r profiad hwn gyda hi ac yr wyf wrth fy modd yn ei gweld hi'n hapus yn gwneud gradd y mae hi mor angerddol amdano. Yn ogystal nid oes raid i mi fyth brynu unrhyw werslyfrau!"



Help llaw i yrfa lwyddiannus

Wrth i ddathliadau ddechrau, mae'n annhebygol bod Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd y Brifysgol ar flaen meddyliau'r mwyafrif o raddedigion. Ond, wrth i'r partion ddod i ben a'r llun graddio yn cymryd y prif le ar y silff ben tân, mae'r sylw yn troi at y camau nesaf ...

Fel un o raddedigion Caerdydd gallwch gael mynediad at weithdai gyrfaoedd a chyflogadwyedd, digwyddiadau cyflogwyr a ffeiriâu gyrfaoedd i'ch helpu i symud o astudio i gyflogaeth.

Gallwch gael mynediad at gyngor ar yrfaedd am hyd at ddwy flynedd wed i chi raddio.

O'ch Cyfrif Gyrfaoedd gallwch gofrestru i drefnu apwyntiadau, gweld rhestrau digwyddiadau, chwilio am swyddi a threfnu i gael rhybuddion swyddi gan sefydliadau sy'n targedu Prifysgol Caerdydd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, galwch i mewn yn y Ganolfan Cymorth i Fyfrwyr, 50 Plas y Parc, neu ddod o hyd iddynt ar-lein:
www.caerdydd.ac.uk/cynfyfyrwyr/benefits/careers

Hoffech chi gael interniaeth wedi ei dalu?

Ar gael mewn sefydliadau lleol (wedi ei gymorthdalu gan Santander), mae Interniaethau ar gael drwy gydol y flwyddyn. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Profiad Gwaith
E-bost: experienceworks@caerdydd.ac.uk,
Tel: **029 2087 6409**.

A oes gennych chi syniad busnes neu syniad menter gymdeithasol, neu am ennill sgiliau newydd?

Gall cyn fyfrwyr gael mynediad i gyngor busnes un-i-un, cychwyn busnes a gweithdai sgiliau, gofod swyddfa cychwyn busnes AM DDIM ar gyfer busnesau sy'n seiliedig ar dechnoleg, cyfleoedd rhwydweithio, mentora busnes a hyfforddi a digwyddiadau siaradwr gwadd, i gyd am hyd at bum mlynedd ar ôl graddio. Os ydych yn raddedig a chyda diddordeb mewn cefnogi entrepreneuriaid

sy'n fyfrwyr, drwy fentora neu rannu eich profiad, cysylltwch â ni. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Menter:
enterprise@caerdydd.ac.uk
Tel: **029 2078 1442**

Ydych chi'n fodlon rhannu eich cynlluniau gyrfa gyda Phrifysgol Caerdydd?

Yn ddiweddarach eleni byddwch yn derbyn arolwg a gofynnir i chi roi gwybodaeth am yr hyn yr ydych yn ei wneud chwe mis ar ôl graddio. Mae'r Arolwg Cychfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) yn helpu i bennu cyflogaeth gyffredinol a chanlyniadau astudio o gyrsiau addysg uwch. Mae gan y Brifysgol rwymedigaeth gyfreithiol i gofnodi'r wybodaeth hon i Lywodraeth y DU.

Cael gwybod mwy:
www.caerdydd.ac.uk/cynfyfyrwyr/get-involved/graduate-survey

Newyddion Caerdydd

Golygydd: Claire Sanders

Mae'r Golygydd yn cadw'r hawl i olygu cyfraniadau a gafwyd. Er y cymerir gofal i sicrhau cywirdeb y wybodaeth, ni ellir gwarantu hyn.

Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn 'Newyddion Caerdydd' o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau'r Brifysgol. Rydym yn croesawu eitemau o ddi-ddordeb sy'n ymwneud â'r Brifysgol a'i staff. Dylech eu hanfon i'r: Adran Cyfathrebu a Marchnata

Ffôn: 029 2087 5596

Twitter: @prifysgolCdydd

E-bost: newsletter@caerdydd.ac.uk

Ar-lein: www.caerdydd.ac.uk/news/newsletter.html

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig. Rhif 1136855

Mae Newyddion Caerdydd ar gael mewn print bras. I ofyn am gopi anfonwch neges at: newsletter@caerdydd.ac.uk

Argraffwyd yn gyfan gwbl ar bapur sydd wedi'i ailgylchu, yn unol ag ymrwymiad y Brifysgol at gynaliadwyedd. Cewch wybod mwy yn www.caerdydd.ac.uk/sustainability.

2015

Rydych chi wedi graddio - beth nesaf?

Rydych yn awr yn aelod o gymuned o 120,000 o cyn fyfyrwr byd-eang cryf Prifysgol Caerdydd.

Peidiwch ag anghofio ...

- Arhoswch mewn cysylltiad â Chaerdydd ar LinkedIn, Facebook a Trydar
- Ymunwch â digwyddiadau cyn fyfyrwr ar draws y byd
- Rhannwch eich llwyddiannau fel y gall cyd cyn fyfyrwr, myfyrwr a staff ddathlu gyda chi
- Ymatebwch i Arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch ymhen chwe mis
- Gadewch i'r Brifysgol wybod am ddiweddariadau i'ch manylion cyswllt er mwyn i ni eich gwahodd chi i ddiwyddiadau cyn fyfyrwr, rhannu cyfleoedd gyrfa a galluogi rhwydweithiau o amgylch y byd.

Anfonwch ddiweddariadau i: cyn.fyfyrwr@caerdydd.ac.uk